

Bendithion

Darllen: Mathew 26:26–27

Rydym yn aml yn defnyddio geiriau heb wybod eu hystyron. Mor aml y dywedwn wrth ein gilydd, ‘Pob bendith’ neu ‘Bendith Duw arnat’, neu y defnyddiwn y term ‘bendith’ mewn ffordd ddifriol, ‘Bendith tad i ti, wnei di gau dy geg’. Dowch i ni geisio mynd i’r afael â’r term ‘bendith’ ar dudalennau’r Beibl. I ddechrau, mae’n rhaid troi at y gair Hebraeg, *barak*, a ddefnyddir yn yr Hen Destament. Fe’i defnyddir yn gyson yn ei ffurf oddefol, fel yn Llyfr Genesis, ‘Bendigedig gan yr Arglwydd fy Nuw’ (Genesis 9:26). Ond fe’i defnyddir hefyd yn ei ffurf weithredol, i olygu Duw’n bendithio’r ddynolryw â gwahanol bethau, a hefyd am bobl yn bendithio pobl eraill â bendithio Duw. Mae tarddiad y cysyniad o fendithio yn mynd yn ôl i niwloedd gorffennol yr Hebreaid, gyda chysylltiad â ffrwythlonder, fel y gwelir eto yn Genesis, ‘bendithiaf di yn fawr, ac amlhau dy ddisgynyddion yn ddirfawr, fel sêr y nefoedd ac fel y tywod ar lan y môr’ (22:17). O dro i dro, gwelir y cysyniad o Dduw yn bendithio’r ddynolryw â byd natur, sef eu gwneud yn ffrwythlon. Hefyd, mae dyn yn bendithio Duw, trwy ddiolch iddo a’i foli, ac mae’n bosibl bod gwreiddiau hynny yng nghrefyddau ffrwythlonder y Dwyrain Canol. Yn y cyswllt cyntefig hwn, roedd cydberthynas yn bodoli rhwng y bobl ar y naill law a’r duwiau a’r tir ar y llaw arall. Gellir gweld olion y cysyniad hwn, sef y berthynas rhwng y bobl a’r tir yn yr hyn a ddywedir yn Llyfr Haggai am berthynas pobl â Duw, ‘Yn awr ystyriwch sut y bydd o’r dydd hwn ymlaen, o’r pedwerydd dydd ar hugain o’r nawfed mis, dydd gosod sylfaen teml yr Arglwydd; ystyriwch. A fydd had eto yn yr ysgubor? A fydd y winwydden, y ffigysbren, y pomgranadwydden a’r olewydden eto heb roi dim? O’r dydd hwn ymlaen, fe’ch bendithiaf’ (Haggai 2:18–19).

Erbyn cyfnod y Testament Newydd, mae’r ysgrifenydd yn credu fod bendith Duw yn cael ei rhoi mewn ffordd wahanol. Mae defnydd Paul o’r adran yn Genesis sy’n ymwneud â bendith Abraham yn allweddol. Caiff y fendith a roddwyd i Abraham ei gwireddu yng ngweithredoedd Iesu, a

bellach mae pobl yn cael eu bendithio ‘yng Nghrist’ (gweler Galatiaid 3:7-9). Ni chyfyngir y ddysgeidiaeth hon i weithiau Paul yn unig, ond fe geir amlygiad ohoni gan awdur y Llythyr at yr Hebraeid, a hefyd gan Luc (yn Actau 3:25). O’r holl fendithion a groniclir yn y Testament Newydd, mae geiriau Iesu yn y Swper Olaf wedi dylanwadu ar y meddylfryd Cristnogol. Ceir yno adlais o’r wledd Feseianaid sydd i’w rhannu gan ddilynwyr Iesu. Yn yr Efengylau Cyfolwg (Mathew, Marc a Luc) defnyddir ‘bendith’ a ‘diolch’. ‘Ac wrth iddynt fwyta, cymerodd Iesu fara, ac wedi bendithio ... A chymerodd gwpan, ac wedi diolch’ (Mathew 26:26, 27); mae Marc yn dilyn yr un drefn; ond yr hyn a geir gan Luc yw, ‘Derbyniodd gwpan, ac wedi diolch ... Cymerodd fara, ac wedi diolch’ (Luc 22:17, 19). Mae’r fendith a ddaeth o enau Iesu yn ystod y Swper Olaf yn cynnwys diolchgarwch am ei fywyd atgyfodedig (Mathew 26:29). Yn yr Hen Destament ceir y cysyniad o Dduw yn ein bendithio â rhoddion, ond mae’r fendith yn y Testament Newydd yn rhagori am ei bod yn rhodd gwbl unigryw, sef y Crist Byw. A’r Crist hwn yw’r gwesteiwr ym mhob gwasanaeth Cymun. Duw ei hun sy’n bendithio yn yr Hen Destament, a Duw ym mherson y Mab sy’n gweithredu yng nghyd-destun y Cymun.

Myfyrdod pellach:

Pa mor bwysig ydi gwasanaeth y Cymun i chi?

A ddylen ni roi lle blaenllaw a chanolog i’r Cymun yn ein hoedfaon?